



## Ysgol y Faenol

Ffordd Penrhos, Penrhosgarnedd, Bangor, LL57 2NN

Ffôn / Phone: 01248 352162 Ebst / email: [pennaeth@faenol.gwynedd.sch.uk](mailto:pennaeth@faenol.gwynedd.sch.uk)

Pennaeth/Headteacher: Mrs Joanna Thomas

Annwyl Rieni,

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu bydd gennym aelod newydd o gymuned yr ysgol ar ôl y Nadolig. Yn dilyn ceisiadau am anifail anwes i'r ysgol, rydym wedi penderfynu bydd Mali, ci Mrs Thomas yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd fel rhan o'n darpariaeth barhaus ar gyfer lles a iechyd meddwl y disgyblion. Bydd Mali'n treulio amser gyda'r disgyblion a bydd cyfnod hir o integreiddio i fywyd yr ysgol, gyda'r plant yn dysgu sut i ymddwyn o'i chwmpas, wrth gwrs mae'r ci hefyd yn derbyn hyfforddiant priodol.

Dyma rhai o fanteision cael ci ysgol:

- Helpu i ymdawelu disgyblion;
- Gwella ymddygiad a chanolbwyntio, lleihau straen a chynnyddu hunan-barch;
- Annog plant i fynegi teimladau a datblygu eu hyder;
- Meithrin ymdeimlad o gyfrifoldeb;
- Ysgogi disgyblion i feddwl ac i ddysgu;
- Datblygu brwdfrydedd dros anifeiliad a'u mwynhau;
- Annog parch a gwella perthnasoedd disgyblion gyda'i gilydd, rhiani ac athrawon;
- Addysgu plant i feithrin a pharchu bywyd;
- Helpu gwaith a wneir gyda'r plant mwyaf agored i niwed;
- Helpu plant i fagu hyder mewn darllen;
- Gwella presenoldeb;
- Helpu i oresgn ofn cwn;
- Datblygu dealltwriaeth o gariad diamod;
- Cefnogi gyda datblygu chwarae cydweithredol;
- Cefnogi plant i ddatblygu empathi;
- Hyrwyddo ymhellach ein hagenda lles ar gyfer disgyblion;



Sut mae'r ysgol wedi paratoi?

- Gwnaed ymchwil drylwyr i sicrhau ein bod wedi dewis y brîd ci mwyaf addas ar gyfer ein hysgol, ein disgyblion a'n staff;
- Cyn prynu'r ci bach mae'r Pennaeth wedi ymweld â chartref y bridiwr i sicrhau bod natur y ci bach, a natur ei rieni, yn addas ar gyfer rhyngweithio â phlant;
- Ysgrifennwyd asesiad risg llawn a bydd ar gael ar y wefan ac ymgynghorwyd â swyddogion Iechyd a Diogelwch Cyngor Gwynedd;

Gwefan/Website: <http://www.faenol.gwynedd.sch.uk/index.html>



Dilynwch yr ysgol/Follow the school: @ysgolfaenol



